

Te Parti Dathlu i nodi NHS75 a NHSRF45

Croeso i'n cyfarfod heddiw sydd wedi'i drefnu ar ein cyfer ni fel Cangen i ddathlu 75 mlynedd o'r GIG yn ogystal â 45 mlynedd o Gymdeithas Ymddeol y GIG. Rydym yn gobeithio y byddwch yn mwynhau'r prynhawn a'r cyfle i gymdeithasu gyda chyd-aelodau, cymryd rhan mewn cwis difyr a drefnwyd gan **Pam Cocchiara**, a mwynhau Te Hufen Greenmeadow i ddilyn.

Stondin Gacennau Hydref

Mae'r amser wedi dod unwaith eto. Ar gyfer ein cyfarfod nesaf gallwn bobi, dod â chacen neu brynu er mwyn codi arian i elusen o'n dewis. Mae ein stondinau cacennau bob amser yn gwneud yn dda felly gadewch i ni weld a all stondin eleni wneud yr un modd dda.

Adroddiad ar y gêm sgitts gan Delyn

Ers sawl blwyddyn rydym wedi cystadlu mewn gêm sgitts yn erbyn cyn Grwpiau Cymdeithas Ymddeol GIG Rhondda a Merthyr. Er nad ydynt bellach yn aelodau o Gymdeithas Genedlaethol Ymddeol y GIG, mae ein Cangen wedi parhau i gadw mewn cysylltiad a chymryd rhan yn y gêm sgitts ym mis Medi a chystadlu yng Nghwis Nadolig Merthyr ym mis Rhagfyr.



Eleni cynhaliwyd y gêm sgitts ar ddydd Gwener, Medi 1af yn y Ganolfan Chwaraeon ym Mhentre'r Eglwys. Cyn y gêm cawsom ginio bwffe hyfryd ac yna raffl a llwyddodd nifer o'n tîm i ennill gwobrau. Ar ôl cinio cawsom brynhawn llawn hwyl yn cystadlu yn erbyn pob tîm. Am y tro cyntaf erioed enillodd ein Tîm Cangen Gwent y gêm a dod â'r tlws adref i ychwanegu ein henwau at y darian.

Trueni bod cyn lleied o'n haelodau wedi cymryd rhan gan ei fod bob amser yn brynhawn llawn hwyl ac rydym bob amser yn cael croeso mawr. Ceisiwch ymuno â ni ar 8fed Rhagfyr ym Merthyr am brynhawn arall o hwyl.

Byddwn yn trefnu gêm dartiau y gwanwyn nesaf yn erbyn Merthyr a Rhondda os gallwn ddod o hyd i leoliad. Felly os oes unrhyw un yn gwybod am leoliad addas i chwarae dartiau ac sy'n gallu darparu bwffe, rhwch wybod i mi.

DIWEDDARIAD TEITHIAU

MAE TAIR THAITH THEATR WEDI EU TREFNU

POB SIOE YN MATINEE

THE CROWN JEWELS – A COMEDY AT THE NEW THEATRE
DYDDIAD 4YDD HYDREF COST £34 DWY SEDD AR GAEL
CASGLWCH EICH TOCYNNAU HEDDIW OS YDYCH WEDI ARCHEBU

THEN THERE WERE NONE – A CHRISTIE MYSTERY PLAY
DYDDIAD DYDD MERCHER 20FED MAWRTH 2024 COST £35 20 SEDD AR GAEL
TALIAD LLAWN ERBYN CYFARFOD TACHWEDD 20 SEDD AR GAEL
NI FYDD MODD CYMYRD TALIADAAU YNG NGHYFARFOD Y CINIO NADOLIG.

PRETTY WOMAN – THE MUSICAL
CANOLFAN MILENIWM CYMRU
DYDDIAD 2IL MAI 2024 COST £41
I'W DALU'N LLAWN YNG NGYFARFOD IONAWR 20 SEDD AR GAEL

BYDD TAITH FARCHNAD NADOLIG ELENÍ'N MYND I EGLWYS GADEIRIOL WINCHESTER
COST £21 DYDDIAD DYDD IAU 7FED O RAGFYR
DYDDIAD OLAF AR GYFER ARCHEBU YW CYFARFOD TACHWEDD

CWIS NADOLIG A BWFFET YM MERTHYR DYDD GWENER 8FED^{RHAGFYR}
RYDYM WEDI CAEL GWAHODDIAD I YMUNO Â'R GRWP YM MERTHYR AR GYFER EU CWIS
NADOLIG. MAE HYN YN ACHLYSUR LLAWN HWYL AC MAE AELODAU SYDD WEDI BOD O'R
BLAEN YN DWEUD EU BOD WEDI MWYNHAU'R PRYNHAWN YN FAWR.
TRAFNIDIAETH EICH HUN ONI BAI BOD DIGON O AELODAU I DREFNU BWS MINI.
OS DDIM, GALLWN RANNU CEIR.

**AWGRYMIADAU OS GWELWCH YN DDA AR GYFER LLEOLIADAU Y GALLWN DREFNU CINIO
NEU TE PRYNHAWN AR GYFER Y GRŴP YNDDYNT. GALLWN DREFNU BOB YN AIL FIS NEU
PAN NAD OES GENNYM WEITHGAREDD WEDÍ'I THREFNU**

TEITHIAU BWS. COFIWCH ADAEL I DELYN WYBOD BLE BYDD ANGEN EICH CODI OS GWELWCH YN
DDA

**CROESO I OEDOLION TEULU A FFRINDIAU AR Y RHAN FWYAF O DEITHIAU AC EITHRIO PAN FYDD
RHIFAU'N GYFYNGEDIG. BYDD AELODAU'N CAEL BLAENORIAETH O RAN ARCHEBU**

Eich Pwyllgor

Cadeirydd	Lynda Evans	Trefnwyr Raffl	Jen Martin
Is-Gadeirydd	Swydd wag:	Cyfarchwyr	Cynthia Matthews
Ysgrifennydd	Swydd wag:		Lilwyn Griffiths

Trysorydd	Denise Coldrick		Carol Cunnell
Trysorydd Cynorthwyol	Lilwyn Griffiths		Megan Williams
Llefarydd Ysgrifennydd	Joanne Butler		
Ysgrifennydd Aelodaeth	Ann Hyde		
Llyfrau a gwerthiant	Pam E Jones		
Teithiau a gwibdeithiau	Delyn Hunt		
Swyddogion Lles	Caroline Pitt a Megan Williams		

Gwybodaeth Cyswllt

Cadeirydd	Lynda Evans	01633 420668	lyndaevs@hotmail.co.uk
Ysgrifennydd			
Swyddogion Lles	Caroline Pitt Megan Williams	01633 660608 01633 420932	
Teithiau a gwibdeithiau	Delyn Hunt	01633 843140	delyn46@yahoo.co.uk

Cronfa Les Cymdeithas Ymddeol y GIG Sherry Smith, Swyddog Gweinyddol, Swyddfa Ganolog. Tel 01305 361317, www.nhsrf.org.uk